y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 35 | DYDD GWENER, AWST 28, 2009 | Pris 40c

CROESO I LAMBED! – Medi 7, 8 a 9

'Ailddarganfod y ffordd' fydd thema'r Gymanfa Gyffredinol eleni, a gobeithio y bydd sawl un ohonoch yn troedio'r ffordd i Lambedr Pont Steffan ar gyfer yr ail Gymanfa o dan y drefn newydd.

Wedi i'r cynrychiolwyr gyrraedd ar fore dydd Llun, un o'r tasgau cyntaf fydd yn eu hwynebu fydd pleisleisio dros ddarpar-Lywydd newydd ar gyfer 2009-10. Tro'r Dwyrain yw hi i enwebu tri, ac enwau'r Parchgn. Iain Hodgins (Penclawdd), Brian Matthews (Wrecsam) a John Dowber (Bae Colwyn) sydd gerbron eleni.

Llywydd y Gymanfa, y Parchg. Haydn Thomas, fydd yn arwain y defosiwn agoriadol ac yn croesawu'r cynrychiolwyr i'r Gymanfa. Byddwn yn croesawu cynrychiolwyr o naw eglwys arall, gan gynnwys Llywyddion Eglwys yr Alban ac Eglwys Bresbyteraidd Iwerddon a chyfaill o Eglwys Bresbyteraidd yr India, atom eleni.

Wedi cinio ddydd Llun, cynhelir cyfarfod blynyddol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ôl gofynion y Comisiwn Elusennol, ac yna byddwn yn dechrau ar adroddiad Bwrdd y Gymanfa. Yn ddi-os, un o'r uchelbwyntiau'r adroddiad hwnnw fydd anerchiad Wynford Ellis Owen am ei waith fel Cyfarwyddwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill.

Brynhawn dydd Mawrth cawn adroddiad y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth, a hanes diweddaraf yr Adran Hyfforddiant ac Adran y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid. Tro'r Bwrdd Adnoddau ac Eiddo fydd hi ddydd Mercher, a bydd yr adroddiad yn cynnwys cyflwyniad gan rai o weithwyr Coleg y Bala a'r Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid.

Y Parchg. Jonathan Hodgins o'r Fenni yw Caplan y Gymanfa eleni, ac ef fydd yn gyfrifol am yr addoliad boreol. Cynhelir Cymun a Choffâd ar y nos Lun o dan ofal y Llywydd, a phregeth gan y Parchg. Eric Jones cyn gweinyddu'r cymun. Y noson ganlynol bydd y Llywydd yn traddodi ei araith ymadawaol cyn rhoi'r awennau i'r darpar-Lywydd, sef y Barchg. Gwenda Richards, Caernarfon.

Bydd arlwy arbennig ar ein cyfer yn y ddwy ddarlith eto eleni, ac mae byd o wahaniaeth rhwng y ddau destun y tro hwn. 'Y Crist unigryw mewn byd/oes ôl-fodern' fydd gan y Parchg. Bryn Williams o dan sylw yn y Ddarlith Davies ond yn y Ddarlith Hanes, bydd yr Athro Densil Morgan yn mynd â ni nôl i'r 19eg Ganrif er mwyn olrhain hanes a chyfraniad Lewis Edwards (11:45 ar fore dydd Mercher). Diau y bydd y ddwy ddarlith yn wrthgyferbyniol a difyr dros ben.

Cofiwch bod croeso i bob blaenor a gweinidog yn holl gyfarfodydd y Gymanfa, a chaiff bawb ddod i glywed araith ymadawaol y Llywdd a'r Ddarlith Hanes. Gweddïwn yn wir y bydd y cyd-addoli, y cyd-drafod a'r cymdeithasu yn fendithiol ac yn rhoi syniadau ac egni i ni wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd o wasanaethu'r Arglwydd yn ein heglwysi ac yn ein bywydau.

Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu

Gregynog, Gorffennaf 2009

Unwaith eto roedd trwyn y car wedi troi i'r dwyrain, ac yn ffeindio'i ffordd yn rhyfeddol o un troad bach i'r llall nes cyrraedd croeso Gregynnog a'r Weinidogaeth Iacháu. Rhyw 60 ohonom oedd yna, rhai hen ffrindiau a rhai newydd, a phob un yn edrych ymlaen at dridiau o gymdeithasu a dysgu ac addoli. Mae'n ein synnu pob blwyddyn cymaint all ddigwydd mewn tridiau, a hynny heb unrhyw ymdeimlad o ruthr.

Cawsom dair pregeth, y Parchedigion Dafydd Rees Roberts, Geraint Davies, ac Haydn Thomas yn ein hannog yn eu tro i gael hyder yn yr Arglwydd, i geisio ei wyneb ac i gryfhau ein ffydd ynddo. Gwasanaeth Bendithio oedd yr oedfa arweiniol y Parch. Geraint Davies, a chafodd amryw ohonom rhyw fendith arbennig iawn ynddi. Ein darlithydd gwadd oedd y Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts. Roedd yna rhyw chwithdod i amryw ohonom ei glywed yn trafod gweddi yn Saesneg a ninnau'n ceisio ei ddeall gyda calon Gymraeg. Ond hyderwn y bydd y pwyllgor yn gallu datrys ein anhawsterau ni cyn hir. Gweddi fel ymestyn i fyny tuag at Dduw oedd ei bwyslais cyntaf ar y Nos Lun. Soniodd am y dilyniant wrth droi at weddi: distawrywdd, llonyddwch, tangnefedd, cymundeb, addoliad ac uniad, ac am weddi ei hunan fel dyhead, yna rhodd yn arwain at berthynas. Bore Mawrth gweddi fel ymestyn allan at eraill oedd ei destun. Cynnwys hyn ymbil trosom ein anghenion ein hunain, eiriol dros eraill ac thros gyflwr y byd. Ond y mae'r cyfan yn seiliedig ar gariad. Profiad yw ymbil o gael ein caru ac o faddeuant ac o ras. Heb gariad tuag at y rhai 'rydym yn eiriol trostynt nid yw'r weddi yn wir weddi. Gobaith nifer ohonom yw y bydd y darlithydd yn datgblygu ei nodiadau yn lyfr ar y pwnc. Mae prinder garw am lyfrau ar weddi yn y Gymraeg, er bod nifer helaeth o lyfrau o weddiau wedi eu cyhoeddi erbyn hyn. (Gobeithio eich bod yn darllen y Goleuad Elfed!)

Roedd hefyd ddwy sesiwn mewn grwpiau bach i drafod peth o ddysgeidiaeth y beibl ar weddi, ac awr arall i weddio yn ein grwp dros ffrindiau, theulu ac eraill oedd yn ein calonnau. Ond efallai mai'r gwmniaeth a'r sgyrsiau anffurfiol sydd yn gwneud yr ysgol yr hyn ydy hi bob haf. Roedd y trefniadau yn rhedeg yn esmwyth fel arfer, diolch i Marian, a'r bwyd ynddo'i hun yn ddigon o reswm dros fynd i Gregynnog. Nid wyf yn meddwl bod neb wedi troi am adre wedi'r oedfa gymun pnawn Mercher heb fod wedi cael eu hadnewyddu, a'u herio i fod yn fwy ffyddlon mewn gweddi a thystiolaeth, ac wedi profi peth o'r iachad a'r hedd sy'n dod yng nghwmni Iesu.

Parch. Angharad Roberts.